**PEDWERYDD CYFARFOD AR BYMTHEG CADEIRYDDION FFORYMAU MYNEDIAD LLEOL YNG NGHYMRU**

**NODYN CYFARFOD**
**Dyddiad: 26 Ebrill 2017**
**Lleoliad: Canolfan Hafren,** Ffordd Llanidloes, y Drenewydd, Powys, SY16 4HU
**Amser: 10.30am – 3.00pm**

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | *Gweler y rhestr bresenoldeb ar wahân* |
| **Ymddiheuriadau:** | Edwin Guilliford (Fforwm Mynediad Lleol (FfMLl) Dwyrain y Cymoedd), Bob Derbyshire (FfMLl Caerdydd), FfMLl Rhondda Cynon Taf, Dewi ap Rhobert (FfMLl Ynys Môn) |

| | |
|---|---|
| 1. | **Cyflwyniad ac amlinelliad o'r diwrnod**<br>Croesawodd John Morgan bawb i'r cyfarfod, yn enwedig y cynrychiolwyr mai dyma oedd eu cyfarfod cyntaf.<br><br>Mae'r cynrychiolwyr newydd a oedd yn bresennol fel a ganlyn:<br><br>Tim Faire – FfMLl Dwyrain Conwy a Sir Ddinbych (Cadeirydd)<br>Gwen Butler – FfMLl Dwyrain Conwy a Sir Ddinbych (Dirprwy Gadeirydd)<br>Chris Tomley – FfMLl Powys (Cadeirydd)<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau gan nifer o fforymau mynediad lleol (gweler uchod); nid oedd cadeiryddion rhai fforymau wedi ymateb. |
| 2. | **Cofnodion o'r cyfarfod diwethaf**<br><br>Roedd y cofnodion wedi cael eu dosbarthu a'u derbyn yn gywir trwy e-bost.<br><br>Materion a godwyd o'r cyfarfod diwethaf sydd i'w trafod yn y cyfarfod hwn:<br><br>**Cam gweithredu 18.1:** Bydd John Morgan a Carys Drew yn ymchwilio i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd, er mwyn ystyried y goblygiadau a'r cyfleoedd ar gyfer fforymau mynediad lleol (megis mewn perthynas â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Datganiadau Ardal a'r Cynllun Rheoli Adnoddau Naturiol Cenedlaethol), ac yn cynnwys eitem ar gyfer cyfarfod fforymau mynediad lleol cenedlaethol yn y dyfodol.<br><br>Cynhaliwyd camau dilynol mewn perthynas â'r mater hwn. Eglurodd Carys fod hwn yn faes gwaith a oedd yn datblygu ac yn esblygu o hyd. Roedd hi wedi ceisio gwybodaeth gan gydweithwyr a oedd yn gweithio'n agos gyda'r staff a oedd yn rhan o'r gwaith o gefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn aelod |

| | |
|---|---|
| | statudol o bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Awgrymwyd a chytunwyd y dylid cynnwys eitem yn y cyfarfod nesaf er mwyn trafod y mater hwn yn fwy trwyadl, gan gynnwys papur briffio.<br><br>**Cam gweithredu 19.1:** Bydd Carys Drew yn cynnwys eitem ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a gwaith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar yr agenda nesaf, ac yn darparu papur briffio cysylltiedig.<br><br>Bu i John Morgan grynhoi'r materion eraill a drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf, a oedd wedi cynnwys trafodaeth mewn perthynas â ffensys ar dir cyffredin. Mewn perthynas â'r dyddiad terfyn yn 2026 a ph’un a oedd hyn yn berthnasol yng Nghymru neu beidio, roedd Richard Beale (FfMLl Abertawe) wedi derbyn datganiad awdurdodol y bu iddo gynnig ei rannu.<br><br>**Cam gweithredu 19.2** Bydd Richard Beale yn rhannu (trwy'r Ysgrifennydd) y datganiad ar y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy a dderbyniwyd gan y Gweinidog.<br><br>Roedd camau gweithredu eraill wedi cael eu cwblhau neu i gael eu rhannu mewn rhannau eraill o'r agenda hon. |
| 3. | **Materion Llywodraeth Cymru cysylltiedig: Rob Taylor, Cangen Tirwedd a Hamdden Awyr Agored**<br><br>Bu i Rob Taylor drafod y datganiad ysgrifenedig gan Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, ar Wella Cyfleoedd i Gael Mynediad at yr Awyr Agored ar gyfer Gweithgareddau Hamdden, sydd ar gael yma (ac wedi cael ei ddosbarthu eisoes gan yr Ysgrifennydd ar 15 Chwefror 2017).<br><br>Rhoddodd drosolwg o'r gwaith blaenorol i gasglu safbwyntiau ar fynediad yng Nghymru – derbyniwyd 5,800 o ymatebion mewn perthynas â'r Papur Gwyrdd. Mae ymatebion wedi helpu i lywio polisi Llywodraeth Cymru ar fynediad a barn Ysgrifennydd y Cabinet mewn perthynas â'r camau nesaf.<br><br>Tynnodd Rob sylw at y ffaith fod Ysgrifennydd y Cabinet yn bwriadu ymgynghori ar gynigion ar gyfer gwneud gwelliannau mewn tri maes:<br><br>• *Cyflawni cysondeb yn y cyfleoedd sydd ar gael i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwahanol a'r ffordd mae gweithgareddau'n cael eu cyfyngu a'u rheoleiddio*<br>• *Symleiddio a chytgordio gweithdrefnau ar gyfer dynodi a chofnodi mynediad cyhoeddus*<br>• *Gwella fforymau ymgynghorol cyfredol a'r ffordd mae partïon sydd â diddordeb yn cael eu hysbysu am hawliau mynediad a chyfrifoldebau* |

| | |
|---|---|
| | Bydd y cynigion yn cael eu cynnwys mewn ymgynghoriad Papur Gwyn – ar hyn o bryd, nid oes gan Lywodraeth Cymru amserlen ar gyfer hyn. Roedd yn amlwg y byddai'n cael ei gynnwys mewn gwaith yn ystyried yr amgylchedd ehangach, ac yn benodol y cysylltiad â seilwaith gwyrdd.<br><br>Nodwyd, mewn perthynas â fforymau ymgynghorol megis fforymau mynediad lleol, ei bod yn annhebygol y byddai Llywodraeth Cymru yn ceisio newid deddfwriaeth sylfaenol, ac roedd yr adborth a dderbyniwyd oddi wrth fforymau mynediad lleol mewn ymateb i ymgynghoriadau blaenorol yn nodi y gellid gwneud gwelliannau trwy edrych ar reoliadau a chanllawiau.<br><br>Bu i Rob hefyd nodi'r canlynol:<br>- Roedd y gwaith a gafodd ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i ymchwilio i gost gweithredu deddfwriaeth hawliau tramwy gyfredol wedi cael ei gwblhau a byddai'r canlyniadau'n cyfrannu at y cynigion yn y Papur Gwyn.<br>- Roedd ffurf gyfredol Rhaglen Ariannu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy yn dod i ben. Yn y dyfodol, byddai'n dod yn rhan o Gronfa Seilwaith Gwyrdd ehangach Llywodraeth Cymru y gellid gwneud cynigion iddi.<br><br>**Pwyntiau Trafod:**<br><br>• Ar hyn o bryd, nid yw fforymau mynediad lleol yn ymgynghoreion statudol ar gynlluniau priffyrdd Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, gall y cynlluniau hyn gael effaith sylweddol ar fynediad, ac o ganlyniad maent yn rhywbeth y gall fforymau mynediad lleol gynnig cyngor yn ei gylch.<br><br>• Y pryder y caiff fforymau mynediad lleol roi cyngor ond, i raddau helaeth, gellir anwybyddu'r cyngor hwn. Er y nodwyd y byddai'n rhaid i sefydliadau sy'n derbyn cyngor gan fforymau mynediad lleol roi rheswm da dros beidio â'i dderbyn, teimlid y gellid gwella morâl fforymau mynediad lleol pe gellid cryfhau'r angen i dderbyn eu cyngor.<br><br>• Mae rôl fforymau mynediad lleol mewn perthynas â Chynlluniau Gwella Hawliau Tramwy yn cael ei hamlinellu’n glir yng Nghanllawiau Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy Llywodraeth Cymru.<br><br>• Roedd pryder y byddai Rhaglen Ariannu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy yn dod i ben ar adeg y byddai awdurdodau’n cynnal eu hadolygiad, ond bu i Lywodraeth Cymru bwysleisio mai nod y Rhaglen Ariannu oedd rhoi hwb i'r gwaith o weithredu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy gwreiddiol.<br><br>• Roedd pryder bod awdurdodau'n gwario symiau sylweddol ar |

| | |
|---|---|
| | ymgynghorwyr, ond nodwyd bod amgylchiadau lle roedd hyn yn angenrheidiol a bod nifer o awdurdodau wedi defnyddio ymgynghorwyr yn y rownd gyntaf o Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy.<br><br>• Awgrymwyd bod Seilwaith Gwyrdd yn faes y gallai awdurdodau a fforymau mynediad lleol ymchwilio iddo a nodi'r ffordd mae Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy yn cyfrannu – roedd pryder na ddylai hyn ganolbwyntio ar ardaloedd trefol yn unig.<br><br>• Gyda newidiadau i ddeddfwriaeth a meysydd o ddiddordeb yn ehangu, mae goblygiad ar gyfer rôl fforymau mynediad lleol ac mae angen adlewyrchu hyn mewn unrhyw ganllawiau. |
| 4. | **Glastir 2017: Trefniadau Cymeradwyo Fforymau Mynediad Lleol**<br><br>Roedd y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd wedi cael eu hysbysu, oherwydd rhwymedigaethau blaenorol, yn anffodus nad oedd neb o Lywodraeth Cymru yn gallu dod i gynrychioli Glastir.<br><br>Roedd Jane Tibbot wedi dosbarthu papur briffio ar gyfer y fforymau mynediad lleol, yn amlinellu'r rôl a roddwyd iddynt wrth gymeradwyo mynediad o dan Glastir Uwch. Roedd Jane wedi cynnig cwrdd â John Morgan fel y Cynrychiolydd Cenedlaethol, ynghyd â'r Ysgrifennydd, i wneud gwaith dilynol mewn perthynas ag unrhyw faterion a godwyd gan gyfarfod y Cadeiryddion. Cytunwyd y byddai'r Dirprwy Gadeirydd hefyd yn mynychu'r cyfarfod.<br><br>Nododd Carys fod hwn yn ddiweddariad ar y papurau briffio blaenorol a oedd yn amlinellu'r cyfle ar gyfer ymarfer blynyddol i fforymau mynediad lleol awgrymu llwybrau caniataol. Er mwyn cwtogi'r gwaith hwn i dasg gyflawnadwy, gallai fforymau mynediad lleol edrych ar wneud cysylltiadau caniataol i'r llwybrau sydd â blaenoriaeth a amlinellir yn y papur briffio.<br><br>Awgrymodd Rob Taylor y byddai o gymorth pe bai cynrychiolydd o Gangen Tirwedd a Hamdden Awyr Agored Llywodraeth Cymru hefyd yn mynychu er mwyn rhannu materion sydd o ddiddordeb a rennir.<br><br>**Pwyntiau Trafod:**<br><br>• Pryder nad oedd y dasg a ddisgwylir gan y fforymau mynediad lleol yn ymarferol (yn bennaf mewn perthynas â maint y dasg a'r ffaith nad yw'r fforymau mynediad lleol yn gwybod pa ardaloedd sydd yn Glastir), a'r ffaith fod fforymau mynediad lleol yn wirfoddolwyr ac y byddai'n bosibl gwneud llawer o waith i gyflawni ychydig yn unig.<br><br>• Mae cyhoeddi llwybrau a chyfathrebu yn broblem fawr. Pryder nad oes mapiau ar gael yn dangos neu'n cyhoeddi lleoliad mynediad caniataol o dan Glastir, a bod diffyg cyfathrebu â |

| | |
|---|---|
| | fforymau mynediad lleol i nodi a oes unrhyw gynlluniau'n mynd rhagddynt.<br><br>• Roedd nifer o fforymau mynediad cyhoeddus wedi rhoi ymdrech i gynnig llwybrau mynediad caniataol, ond ni fu unrhyw gyfathrebu gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i gadarnhau a oedd unrhyw rai o'r cynigion hyn wedi cael eu derbyn neu beidio.<br><br>• Y ffaith bod mynediad yn opsiynol o dan y cynllun, a'r angen i sicrhau bod fforymau mynediad lleol yn ymwybodol o'r ffaith y gallent fuddsoddi cryn amser ond methu â gweld unrhyw fanteision gan nad yw'n ofynnol mynd â mynediad yn ei flaen.<br><br>• Mae angen eglurdeb ynghylch statws llwybrau Tir Gofal lle mae arwyddion yn parhau i fod ar y safle, a chwestiynau am werth am arian mewn perthynas â hirhoedledd y llwybrau.<br><br>• Mae'n dda bod Glastir yn agored i grŵp ehangach o ddefnyddiau tir yn ogystal â ffermio – megis coetir.<br><br>• Yr angen i ddylanwadu ar unrhyw gynlluniau yn y dyfodol ar ôl 2020 ynghylch trawsgydymffurfio mewn perthynas â hawliau tramwy.<br><br>• Awgrym ynghylch a fyddai'n fwy cost effeithiol yn y dyfodol i ffermwyr dderbyn cyllid er mwyn cynnal hawliau tramwy.<br><br>**Cam gweithredu 19.3:** Bydd Carys yn trefnu cyfarfodydd ar gyfer Cadeiryddion Fforymau Mynediad Lleol ac yn cynnwys cynrychiolydd o Gangen Tirwedd a Hamdden Awyr Agored.<br><br>**Cam gweithredu 19.4:** Bydd yr holl Gadeiryddion yn cyflwyno unrhyw bwyntiau y maent am i John Morgan godi gyda Jane Tibbot trwy e-bost. |
| **5.** | **Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru a'i Oblygiadau**<br><br>Rhoddodd Carys Drew gyflwyniad ar Arolwg Hamdden Awyr Cymru: Ffeithiau Allweddol ar gyfer Polisi ac Arfer: Adroddiad Cryno. Mae'r adroddiad ar gael ar-lein yma.<br><br>Mae canfyddiadau'r adroddiad yn cael eu cyflwyno'n glir ac yn rhoi tystiolaeth a mewnwelediadau defnyddiol i helpu i lywio gwaith fforymau mynediad lleol. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y rhai sy'n cymryd rhan mewn hamdden awyr agored, yr hyn mae pobl yn ei wneud, lle mae pobl yn mynd, cymhellion a rhwystrau i gymryd rhan, galw yn y dyfodol, gweithgareddau corfforol a manteision iechyd, gwariant a manteision economaidd, a gofalu am yr amgylchedd. Mae'r heriau allweddol y mae angen mynd i'r afael â nhw'n cael eu crynhoi ar ddiwedd ar adroddiad.<br><br>Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru yma. |

| | |
|---|---|
| | Ar ôl darllen yr adroddiad llawn, gellir cyflwyno unrhyw gwestiynau pellach i Carys Drew yn y lle cyntaf cyn eu hanfon at Susan Williams.<br><br>**Trafodaeth**<br><br>• Nodir anabledd fel un o'r rhwystrau rhag cymryd rhan yr adroddir amdanynt.<br><br>• Nodwyd y canfyddiadau bod meddu ar gi yn ffactor wrth gymryd rhan, gyda 39% o ymweliadau yn cael eu gwneud gan bobl a chanddynt gi. Ategwyd pwysigrwydd ymddygiad cyfrifol gan gerddwyr cŵn a rheoli cŵn ar dir fferm i sicrhau nad ydynt yn poeni da byw. |
| **6.** | **Papur Briffio Cyffredinol Cyfoeth Naturiol Cymru:**<br><br>Rhoddodd Carys drosolwg o nifer o eitemau gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru sydd o ddiddordeb i fforymau mynediad lleol (gweler y papur briffio ar wahân).<br><br>**Trafodaeth**<br><br>• Mewn perthynas â'r Flwyddyn Chwedlau, roedd ymholiad ynghylch a fu unrhyw waith ymgynghori ag awdurdodau parciau cenedlaethol am gyhoeddusrwydd ychwanegol ar gyfer llwybrau yn eu hardaloedd a oedd eisoes yn gweld defnydd uchel.<br><br>• Gofynnwyd a fyddai'n bosibl dosbarthu manylion cyswllt ar gyfer swyddogion Llwybr Arfordir Cymru a'r ardaloedd y maent yn gyfrifol amdanynt. |
| **7.** | **Sicrhau digonolrwydd perthynas y fforymau mynediad lleol â chyngor sir neu barc cenedlaethol: Papur drafft i'w drafod a'i gytuno**<br><br>Cyflwynodd John Morgan y papur (dosbarthwyd ar 10 Ebrill 2017). Mae'n crynhoi'r materion a godwyd trwy waith blaenorol yn edrych ar arferion gweithio fforymau mynediad lleol.<br><br>Un o argymhellion y papur yw cyflwyno Memorandwm o Gytundeb (cynhwysir cytundeb templed yn Atodiad 1 y papur) rhyngom i sicrhau bod fforymau mynediad lleol yn gweithio'n agos gyda'u hawdurdod penodi.<br><br>**Trafodaeth:**<br><br>• Mae rhai fforymau mynediad lleol yn hapus gyda'r trefniadau gweithio cyfredol ac mae pryder y gallai cyflwyno Memorandwm o Gytundeb ffurfiol amharu ar y rhain. |

| | |
|---|---|
| | • Cefnogaeth ar gyfer dull sy'n helpu i gynyddu proffil y fforwm mynediad lleol gyda'r awdurdod ac yn rhoi man cychwyn er mwyn i'r fforymau mynediad lleol sydd â phroblemau geisio gwella.<br><br>• Awgrym yw'r dull hwn – mater ar gyfer pob fforwm mynediad lleol fyddai ystyried a ydynt am fynd ar ôl y math hwn o gytundebau ffurfiol – nodwyd y gallai helpu i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon sy'n cael eu codi'n aml gan fforymau mynediad lleol.<br><br>• Awgrym y gellid ychwanegu hyn at unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru neu Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â fforymau mynediad lleol.<br><br>• Awgrym y dylai canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru gael eu datblygu fel dogfen fyw yn hytrach nag aros am ganlyniadau ymgynghoriadau arfaethedig Llywodraeth Cymru.<br><br>• Yr angen i ddatblygu elfen o annibyniaeth o awdurdodau penodi.<br><br>• Mae'r rheoliadau yn datgan y dylid talu treuliau aelodau fforymau mynediad lleol, ond dywedodd rhai nad oedd hyn yn digwydd.<br><br>**Cam gweithredu 19.5:** Bydd pawb yn ystyried y papur ac yn anfon unrhyw sylwadau at Carys Drew trwy e-bost yn y cyfeiriad canlynol: LAF@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk<br><br>**Cam gweithredu 19.6:** Dylai unrhyw un sydd eisiau copi o'r canllawiau ar gyfer fforymau mynediad lleol a roddwyd i'r fforymau gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru yn flaenorol gysylltu â Carys Drew yn y cyfeiriad e-bost canlynol: LAF@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk |
| **8.** | **Materion yn Ymwneud â'r Arferion Gorau:**<br>**- Gwneud y defnydd gorau o'r Adroddiad Blynyddol statudol**<br>**- Hyfforddiant**<br><br>Cyflwynodd John Morgan yr eitem hon fel cyfle i bawb gael trafodaeth ac iddi ffocws am faterion yn ymwneud â'r arferion gorau.<br><br>**Trafodaeth**<br><br>• Nodwyd bod yr adroddiad blynyddol yn gyfle pwysig i gyhoeddi gwaith y fforymau mynediad lleol, a'i bod yn ofynnol i'r awdurdod penodi ei lunio. Fodd bynnag, nid oedd pob fforwm mynediad lleol yn llunio adroddiad.<br>• Byddai'n bosibl ehangu swyddogaeth yr adroddiad – er enghraifft, i gaffael cyllid a hysbysebu ar gyfer aelodau newydd – a gallai gynnwys safbwyntiau aelodau ac erthyglau i helpu i greu diddordeb yng ngwaith y fforwm mynediad lleol ac aelodaeth ar gyfer y dyfodol. |

| | |
|---|---|
| | • Awgrym y gellid symud y gofyniad i adrodd fel ei fod ar ddiwedd tymor y fforwm mynediad lleol, yn hytrach nag yn flynyddol, er mwyn rhannu gwaith y fforwm.<br>• Dylai'r adroddiad blynyddol gael ei gylchredeg yn helaeth.<br>• Mae'n ddefnyddiol derbyn pecyn gwybodaeth a hyfforddiant a chyflwyniadau gan staff hawliau tramwy ar adeg penodiadau.<br>• Byddai o gymorth rhannu a choladu gwybodaeth ddefnyddiol a'r arferion gorau fel adnodd ar gyfer fforymau mynediad cenedlaethol. |
| **9.** | **Trefniadau ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol**<br><br>Bu i John Morgan amlinellu'r cytundeb a wnaed gyda Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â chefnogi cyfarfodydd Cadeiryddion Fforymau Mynediad Lleol.<br><br>Er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau Cyfoeth Naturiol Cymru, cytunwyd y byddai Carys yn darparu cefnogaeth ysgrifenyddol ar gyfer tri chyfarfod Cadeiryddion, er mwyn helpu i wneud cynnydd yn y meysydd gwaith roedd cyfarfod y Cadeiryddion wedi'u nodi. Pe bai cyfarfod y Cadeiryddion yn darganfod bod angen cyfarfodydd is-bwyllgor arnynt, byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu lle cyfarfod mewn un o'i swyddfeydd. Ni fyddai'r Gynhadledd yn cael ei chynnal eleni.<br><br>**Trafodaeth**<br><br>• Mae angen ystyried cynnwys ysgrifenyddion fforymau mynediad lleol wrth wneud cynnydd gyda gwaith, a'r cyfraniad gwerthfawr sydd ganddynt i'w wneud – mae posibilrwydd o ystyried cyfarfodydd rhanbarthol gydag ysgrifenyddion.<br><br>**Cam gweithredu 19.7: Bydd John Morgan yn ymgynghori â'r ysgrifenyddion ynghylch eu safbwyntiau ar gyfarfod.** |
| **10.** | **Unrhyw fuses arall**<br><br>• Mewn perthynas â ffordd osgoi y Bont Newydd yng Ngwynedd, nodwyd nad yw fforymau mynediad lleol yn ymgynghoreion statudol ar brosiectau adeiladu priffyrdd mawr – er y gall prosiectau o'r fath gael effaith sylweddol ar fynediad.<br><br>• Mae John Morgan yn bwriadu mynychu cyfarfodydd fforymau mynediad lleol unigol – gofynnir i gadeiryddion gysylltu ag ef i'w hysbysu am ddyddiad eu cyfarfod nesaf. |
| **11.** | **Dyddiad y cyfarfod nesaf** |

| | |
|---|---|
| | Cytunwyd i gynnal cyfarfod yn yr hydref ac i geisio trefnu'r un ystafell gyfarfod yn y Drenewydd. |